**Cyngor Bro Morgannwg**

**Adroddiad Ymgynghori**

# Cynnig i sefydlu uned feithrin yn Ysgol Gynradd Fairfield

## 1. Gwybodaeth gefndirol

### 1.1. Amlinelliad o'r ymgynghoriad

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r adborth a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori o 3 Ionawr 2017 tan 15 Chwefror 2017 fel ymateb i gynnig y Cyngor i sefydlu uned feithrin yn Ysgol Gynradd Fairfield gan;

1. Ymestyn ystod oedran yr ysgol o 4 i 11 oed i 3-11 oed;

2. Creu uned feithrin o fewn yr ysgol.

Dilynodd y broses ymgynghori ganllawiau Llywodraeth Cymru, i gydymffurfio â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013. Rhoddodd y broses ymgynghori gyfle i bobl leol ddysgu am y cynnig ac i'r Cyngor glywed barn yr holl rai sydd â diddordeb fel y gellir ei chymryd i ystyriaeth cyn i unrhyw benderfyniadau gael eu gwneud.

Cafodd ymgynghoriad ffurfiol ei gynnal trwy ddogfen ymgynghori a ffurflen ymateb sy'n dod gyda hi a ddosbarthwyd i ymgyngoreion rhagnodedig a'i gyhoeddi ar wefan Bro Morgannwg ar 3 Ionawr 2017.

Mae cyhoeddi dogfen ymgynghori yn ganolog i'r broses ymgynghori ar gyfer ad-drefnu ysgolion ac mae wedi'i rhagnodi gan Lywodraeth Cymru yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion 2013. Amlinellodd y ddogfen ymgynghorol y newidiadau sy'n cael eu hystyried, y rhesymeg ar gyfer y rhain a manylion yr ymarfer ymgynghori. Yn ogystal, roedd y ddogfen ymgynghori yn ymgorffori ffurflen ymateb unigol. Dywedwyd wrth yr ymgyngoreion am argaeledd fersiwn ar-lein i'w chwblhau.

## 2. Ymgynghoriad

### 2.1. 2.1 Cyhoeddi'r ymgynghoriad

Cyhoeddwyd y ddogfen ymgynghorol ddwyieithog ar 3 Ionawr 2017 a'i dosbarthu ar-lein, trwy'r cyfryngau cymdeithasol ac ar wefan Cyngor Bro Morgannwg.

Dosbarthodd y Cyngor gopïau caled o'r ddogfen ymgynghori i staff, y corff llywodraethu a rhieni/gofalwyr a gwarcheidwaid plant yn Ysgol Gynradd Fairfield, ac Ysgolion Meithrin Bute Cottage a Cogan.

### 2.2. Ymgysylltu Rhanddeiliaid

Ymgymerwyd ag ymgynghoriad ar y cynnig gyda'r ymgyngoreion rhagnodedig fel y maent yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion 2013.

Ymgynghorodd y Cyngor â'r grwpiau canlynol:

| | |
|---|---|
| Staff (yn addysgu a'r rhai nad ydynt yn addysgu) yn Ysgol Gynradd Fairfield. | Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Fairfield |
| Rhieni/Gofalwyr a Gwarcheidwaid plant sy'n mynychu Ysgol Gynradd Fairfield | Staff (yn addysgu a'r rhai nad ydynt yn addysgu) yn Ysgol Feithrin Bute Cottage ac Ysgol Feithrin Cogan |
| Corff Llywodraethu Ysgol Feithrin Bute Cottage ac Ysgol Feithrin Cogan | Rhieni/Gofalwyr a Gwarcheidwaid plant sy'n mynychu Ysgol Feithrin Bute Cottage ac Ysgol Feithrin Cogan |
| Bwrdd Rhaglen Plant a Phobl Ifanc Bro Morgannwg | Cyngor Tref Penarth |
| Partneriaeth Cymunedau yn Gyntaf | Partneriaeth Datblygu Blynydoedd Cynnar Bro Morgannwg (EYDCP) |
| Cynghorwyr Lleol | Aelodau'r Cynulliad (AC)/ Aelodau Seneddol (AS)/ Aelodau Cynulliad |

| | |
|---|---|
| | Rhanbarthol |
| Comisiynydd y Gymraeg | Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) |
| Ysgolion Cynradd ac Uwchradd Cyfagos<br><br>ym Mro Morgannwg | Rhieni dros Addysg Gymraeg (RHAG) |
| Cyd-wasanaeth Addysg Consortiwm Canolbarth y De | Undebau Llafur |
| Estyn | Cyfarwyddwyr Addysg -<br><br>Pob Awdurdod Cyfagos |
| Comisiynydd Heddlu a Throseddau Lleol | Gweinidogion Llywodraeth Cymru |
| Adran Drafnidiaeth y Cyngor | Cyfarwyddwyr Addysg Esgobaethol |

Gwahoddwyd ymgyngoreion i lenwi ffurflen ymateb ymgynghori ffurfiol a allai gael ei llenwi mewn copi caled neu ar-lein trwy wefan y Cyngor yn www.valeofglamorgan.gov.uk/fairfieldnursery

### 2.3. Cyfarfodydd ymgynghori a sesiynau galw heibio

Cynhaliwyd cyfarfodydd gyda staff a llywodraethwyr Ysgol Gynradd Fairfield, a fynychwyd gan swyddogion y Cyngor. Cafodd prif bwyntiau'r ddogfen ymgynghori eu hamlygu yn ogystal ag esboniad o'r broses statudol.

Cynhaliwyd sesiwn galw heibio ar gyfer holl randdeiliaid Ysgol Gynradd Fairfield.

### 2.4. Ymgynghori â phlant a phobl ifanc

Ymgymerwyd â sesiwn ymgynghori gyda Chyngor Ysgol Ysgol Gynradd Fairfield er mwyn ymgysylltu'r disgyblion yn y broses ymgyngori. Gellir dod o hyd i ddeilliant y sesiwn hon yn Atodiad D.

### 2.5. Ymgynghoriad gyda'r Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant

Trafododd y Pwyllgor Craffu gynnydd yn eu cyfarfod ar 23 Ionawr 2017, a gellir dod o hyd i gyfeiriad ato yng nghyfnod rhif 711 sy'n cadarnhau y caiff argymhelliad y Cabinet ei gefnogi.

**Crynodeb o'r Ymgynghoriad**

### 2.6. Cwestiynau Ymgynghori

Gofynnwyd i ymgyngoreion am eu barn ar gwestiwn allweddol:

- Ydych chi'n cefnogi'r cynnig i greu uned feithrin newydd o fewn Ysgol Gynradd Fairfield o fis Ionawr 2018?

Yn ogystal, cynigiwyd cyfle i ymgyngoreion gwneud sylwadau pellach:

- Os hoffech chi awgrymu unrhyw newidiadau neu bethau amgen i'r cynigion, rhowch fanylion o'r rhain isod.

- Unrhyw sylwadau eraill?


### 2.7. Canlyniadau o'r adborth gan bob rhanddeilad

Derbyniodd y Cyngor 43 ymateb unigol erbyn dyddiad cau'r ymgynghoriad. O'r 43 ymateb unigol, roedd 32 o blaid y cynnig ac roedd 11 yn erbyn. Ymatebodd Estyn yn ffurfiol i'r ymgynghoriad gan ddarparu eu barn ar rinweddau cyffredinol y cynnig yn unig.

Nodwyd nad yw pob ymgynghorai wedi rhoi ymateb i bob un o'r cwestiynau a bod rhai ffurflenni nad oeddent wedi'u llenwi'n llawn. Yn yr achosion hyn rydym wedi derbyn yr ymatebion i'r cwestiynau y maent wedi dewis eu hateb.

Nid yw adborth o gyfarfodydd ymgynghori a sesiynau galw heibio yn yr adroddiad hwn oherwydd y datganwyd yn glir yn y ddogfen ymgynghori ac yn y digwyddiadau dan sylw y byddai'r Cyngor ond yn derbyn ymatebion a oedd yn derbyn y ffurflen ymateb ymgynghori swyddogol. Yn ogystal cafodd rhieni wybod am hyn yn y sesiynau galw heibio.

**2.8 Proffil o ymatebwyr**



**Ymatebion**

Gellir dod o hyd i grynodeb o themâu a materion allweddol a godwyd gan ymgyngoreion statudol a’r ymateb i’r materion hynny gan Gyngor Bro Morgannwg yn atodiad A. Gellir dod o hyd i grynodeb o sylwadau a dderbyniwyd o blaid y cynnig yn Atodiad B a cheir ymatebion i themâu cyffredinol yn Atodiad C.

Gellir dod o hyd i’r ymgynghoriad gyda phobl ifanc yn Atodiad D.

Yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion 2013, anfonwyd copi o'r ddogfen ymgynghhori at Estyn. Gellir dod o hyd i'r ymateb gan Estyn yn Atodiad E.

Gellir dod o hyd i’r Ymateb gan Bennaeth Ysgol Feithrin Bute Cottage yn Atodiad G.

Gellir dod o hyd i ymateb unigol gan Gadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Gynradd Evenlode yn Atodiad H.

**Atodiad A**

**Ymgynghoriad gydag ymgyngoreion statudol**

## 1. Themâu adborth

Mae'r canlynol yn crynhoi'r materion/pryderon allweddol a godwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori ffurfiol. Mae'r materion yn rhoi trosolwg o themâu'r ymatebion ac ni fwriedir iddynt fod air am air. Mae'r holl ymatebion ysgrifenedig ar gael i'r Aelodau Cabinet.

**Mater 1**

**Effaith ar Ysgolion Meithrin Bute Cottage a Cogan**

Mynegodd ymatebwyr bryderon y gallai gweithredu'r cynnig awgrymu diwedd i'r angen am Ysgol Feithrin Bute Cottage gan fod cymaint o blant yn nalgylch Fairfield. Teimlodd ymatebwr unigol ei fod yn debygol o gael effaith niweidiol ar niferoedd yn Ysgol Feithrin Cogan.

**Ymateb y cyngor i'r pryderon a nodwyd**

Mae'r cynnig yn annhebygol o gael effaith sylweddol ar unrhyw ysgolion eraill yn yr ardal leol o'i chwmpas. Er bod y cyngor yn cynyddu cyflenwad y lleoedd meithrin yn ardal Penarth, mae cymaint o alw ar hyn o bryd fel y caiff nifer o blant eu gwrthod yn aml o ran cael mynediad at feithrinfeydd a gynhelir o ganlyniad.

Caiff Bute Cottage ei gordanysgrifio'n rheolaidd bob blwyddyn a chaiff rhieni eu troi i ffwrdd, ac o ganlyniad ni fyddant yn aml yn ymgymryd â darpariaeth meithrin. Mae tueddiad gan rieni i ailymgeisio am le yn Bute Cottage y flwyddyn academaidd ganlynol. Caiff Ysgol Feithrin Cogan ei chefnogi'n dda bob blwyddyn.

Mae nifer y plant ar gyfartaledd sy’n trosglwyddo o  Ysgolion Meithrin Bute Cottage a Cogan i Ysgol Gynradd Fairfield bob blwyddyn yn isel iawn. Bydd tua 18% o ddisgyblion yn trosglwyddo o Bute Cottage i Ysgol Gynradd Fairfield a 17% o Ysgol Feithrin Cogan i Fairfield.  Bydd mwyafrif y plant bob blwyddyn yn trosglwyddo i Ysgol Gynradd Evenlode o Ysgol Feithrin Bute Cottage ac i Ysgol Gynradd Cogan o Ysgol Feithrin Cogan. Bydd sefydlu ysgol feithrin felly yn cael effaith fach ar yr ysgolion hyn.

Mae mwyfafrif yr ysgolion meithrin a gynhelir ym Mhenarth yn cael eu gordanysgrifio bob blwyddyn a gwrthodir nifer o geisiadau gan rieni sy'n golygu bod rhai disgyblion yn methu cael mynediad at le mewn ysgol feithrin o fewn pellter rhesymol o'u cartref. Oherwydd lleoliad Ysgol Feithrin Cogan, nid yw’r ysgol bob amser yn denu ceisiadau ar gyfer plant y gwrthodir lle iddynt rywle arall ym Mhenarth. Mae cofnodion presennol yn dangos bod 9 lle ar gael yn Cogan. I’r gwrthwyneb, mae Victoria wedi gwrthod 13 o ddisgyblion y flwyddyn academaidd hon, Albert 19 a Bute  Cottage 29. Mae hyn yn adlewyrchu’r profiadau dros y blynyddoedd diweddar.

Bydd y cynnig hwn yn sicrhau bod digon o leoedd ar gael i gwrdd â galw lleol.  Gallai darparu'r feithrinfa ddenu rhai rhieni i ffwrdd o wneud cais ar gyfer ysgolion eraill ond bydd yn cynnig rhagor o ddewis ar gyfer rhieni ac mae yna bosibilrwydd o sicrhau bod mwy o ddewis y rhieni yn cael ei fodloni.

**Mater 2**

**Ni fydd y cynnig yn cael effaith ar niferoedd yn Ysgol Gynradd Fairfield**

Roedd gan ymatebydd amheuon o ran a fyddai ychwanegu ysgol feithrin yn cael unrhyw effaith ar nifer y rhieni sy'n gwneud cais i Fairfield.

**Ymateb y cyngor i’r pryderon a nodwyd**

Mae sefydlu ysgol gynradd 3-11 oed yn cynnig model cyflawni effeithlon a chynaliadwy. Bydd yr ysgol yn gallu ymgorffori darpariaeth ar gyfer plant 3 a 4 oed

mewn lleoliad Blynyddoedd Cynnar a Chyfnod Sylfaen o safon. Byddai ysgol feithrin yn galluogi pontio di-dor ar gyfer plant oedran meithrin i ddosbarth derbyn yr ysgol ac yn cynnal niferoedd disgyblion yn y dyfodol.

Mae nifer o rieni plant sy'n byw yn nalgylch Fairfield yn dewis anfon eu plant i ysgolion eraill sydd â dosbarth meithrin. Mae hyn yn cael effaith ar nifer y disgyblion sy'n mynychu'r ysgol.

Nid yw sefydlu dosbarth meithrin yn bennaf ynglŷn â chadw niferoedd disgyblion. Mae'r cynnig wedi'i ganolbwyntio ar wella safonau addysgol drwy ddarparu lleoedd meithrin yr awdurdod lleol ychwanegol o safon yn ardal Penarth.

Y bwriad yw y caiff hyn ei gyflawni gan greu darpariaeth gynradd ar gyfer plant 3-11 oed er mwyn gwella safonau yn ysgol gynradd Fairfield.

**<u>Mater 3</u>**

**<u>Cefnogaeth gyfredol ar gyfer y ddarpariaeth ragorol a welir mewn ysgolion meithrin unigol</u>**

Teimlodd ymatebwr fod angen i'r cyngor gefnogi darpariaeth y cyfnod sylfaen yn llwyr yn y meithrinfeydd unigol ym Mhenarth.

**Ymateb y Cyngor i'r pryderon a nodwyd**

Nid oes unrhyw newidiadau i'r ddarpariaeth feithrin bresennol sydd ar gael yn Bute Cottage neu feithrinfa ysgol feithrin Cogan o ganlyniad i'r cynnig hwn.

Mae'r Cyngor yn credu bod dysgu o safon yn cael ei ddarparu mewn dosbarthiadau meithrin ac ysgolion cynradd unigol. Ceir tystiolaeth o hyn trwy adroddiadau arolygiadau Estyn ar gyfer ysgolion meithrin ac ysgolion cynradd ar draws Bro Morgannwg sydd â dosbarthiadau meithrin ynghlwm.

Bydd y Cyngor yn parhau i gefnogi ysgolion meithrin Bute Cottage a Cogan.

**Mater 4**

**Ariannu**

Roedd gan ymatebwr bryderon ynglŷn â llai o gyllid ar gyfer Bute Cottage o ganlyniad i'r cynnig.

**Ymateb y cyngor i'r pryderon a nodwyd**

Caiff cyllid ei ddarparu drwy'r fformiwla ariannu ysgolion sy'n dyrannu'r rhan fwyaf o gyllid i ysgolion ar sail niferoedd disgyblion. Bydd y fformiwla ar gyfer cyllid i ddisgyblion yn parhau yr un peth ar gyfer Ysgol Feithrin Bute Cottage os caiff meithrinfa ei sefydlu yn Ysgol Gynradd Fairfield.

Mae'r Cyngor yn rhagweld y bydd effaith y cynnig ar ysgolion eraill yn fach oherwydd nid yw nifer o rieni yn cael lleoedd yn ysgolion meithrin Penarth bob blwyddyn.

Mae'r cynnig yn annhebygol o gael effaith sylweddol ar ysgolion eraill yn yr ardal leol oherwydd na fyddai cyllid o'r fath i ysgolion eraill yn cael ei effeithio'n niweidiol gan y cynnig.

**Mater 5**

**Safonau a phontio**

Teimlodd ymatebwr fod rhaid i safonau yn Fairfield gael eu gwella. Cwestiynodd ymatebwr a fyddai uned feithrin o fewn Fairfield (ac o bosibl Evenlode) yn helpu gyda'r pontio o ysgol feithrin i ddosbarth derbyn a theimlodd fod plant yn setlo'n dda iawn i ddosbarth derbyn o feithrinfeydd unigol.

**Ymateb y cyngor i'r pryderon a nodwyd**

Mae'r cynnig ynglŷn â sefydlu uned feithrin yn Ysgol Gynradd Fairfield ac nid Ysgol Gynradd Evenlode.

Mae'r cynnig yn cefnogi parhad a dilyniant o ran dysgu plant o 3 oed ac yn darparu cydlyniad rhwng y sector meithrin a chynradd, gan ddarparu amgylchedd dysgu o safon ar gyfer plant. Bydd hyn y galluogi'r holl blant i ddatblygu'n ddysgwyr llwyddiannus ar oedran cynnar.

Byddai'n hwyluso pontio disgyblion o'r feithrinfa i'r dosbarth derbyn yn well gyda mwy o ffocws ar safonau. Câi hyn ei gyflawni'n rhwydd trwy broses gyffredin o dracio, monitro ac ymyrryd o'r feithrinfa trwodd i flwyddyn dau a'r tu hwnt.

Bydd yr effaith debygol ar y cynigion ynglŷn â gallu'r ysgol i gyflwyno'r cwricwlwm llawn yn y Cyfnod Sylfaen a phob cyfnod allweddol mewn addysg yn gadarnhaol.

Cafodd Ysgol Gynradd Fairfield ei hadnabod gan Estyn fel un lle dylai'r Cyngor gymryd ymagwedd fwy uniongyrchol i herio perfformiad. Wrth ddangos ymrwymiad i dwf cyflym a chyson, cafodd nifer o rwystrau eu hadnabod.

Câi cynllunio a chyflwyno'r cyfnod sylfaen (meithrin tan flwyddyn dau) eu gwella trwy sefydlu uned feithrin o fewn yr ysgol. Gellid tracio cynnydd disgyblion o ran dysgu'n fwy systematig ar draws pedair blynedd barhaus, yn hytrach nag un flwyddyn yn y feithrinfa wedi'i dilyn gan dair blynedd yn yr ysgol, a fydd yn hwyluso dilyniant. Byddai ymagwedd fwy cyfannol at ymyrraeth yn cael effaith gadarnhaol ar safonau.

Cynhaliodd y Cabinet gyfarfod panel ar gynnydd unigol gydag Ysgol Gynradd Fairfield ym mis Mehefin 2016. Gan amlygu meysydd o berfformiad cryf, dywedodd y Pennaeth y bu gwelliant o ran deilliannau. Ystyriwyd safonau addysgu yn gryfder ac adroddwyd bod ansawdd yr addysgu yn gyson "dda" neu "yn well". Yn y cyfarfod, amlygodd y Pennaeth, gan nad oedd gan yr ysgol ei dosbarth meithrin ei hun a bod y plant yn trosglwyddo o nifer o feithrinfeydd gwahanol i ddosbarth derbyn yr ysgol, nad oedd yr ysgol bob amser yn hollol ymwybodol o'r niferoedd a oedd i ddod i mewn i'r dosbarth derbyn ac roedd pontion disgyblion yn heriol. Bydd nifer o blant yn dod i'r dosbarth derbyn o ardaloedd eraill ac mewn rhai achosion roedd lefel y sgiliau cymdeithasol yn isel iawn. Amrywiodd y man cychwyn ar gyfer plant ac roedd y plant yn meddu ar raddfeydd gwahanol o ran sgiliau cymdeithasol a symudedd.

Yn ogystal, dywedodd y Pennaeth fod anawsterau yn bodoli oherwydd y gwahanol ymagweddau at ddysgu yr ymgymerwyd â nhw gan y meithrinfeydd gwahanol yn yr ardal. Cafodd yr ysgol anhawster o ran cael mynediad at wybodaeth am ddisgyblion o’r tu allan i’r dalgylch neu o’r tu allan i’r sir. Rhoddwyd gwybod i’r panel, o’r 43 o blant yn y flwyddyn derbyn gyfredol, dim ond 30 o ddisgyblion oedd â’r data craidd angenrheidiol gyda nhw wrth gyrraedd o’r gwahanol feithrinfeydd.

Cyndabyddir yr ysgol erbyn hyn fel ysgol categori 2B. Mae adroddiad diweddar o’r Cyd-wasanaeth Addysg yn dweud "Mae disgyblion yn gwneud cynnydd da yn Fairfield. Mae deilliannau yn y Cyfnod Sylfaen yn gyffredinol gryf, er bod perfformiad o ran iaith, llythrennedd a chyfathrebu yn llai cryf. Nid oes amheuaeth fod arweinyddion yr ysgol mewn sefyllfa gref i allu cyflwyno darpariaeth feithrin yn yr ysgol a sicrhau ei bod yn cynnig profiad dysgu o safon uchel i’r holl blant. Byddai hanes yr ysgol o wella cyrhaeddiad y rhan fwyaf o ddysgwyr yn sicr yn cael ei atgyfnerthu. Byddai dull cyson o addysgu a chynllunio dysgu disgyblion o ran dilyniant a chynnydd yn bendant yn cyfrannu at godi safonau ar draws yr ysgol.”

Mae’r Cyngor yn cytuno â’r sylwadau a wnaed gan y Cydwasanaeth Addysg o ran codi safonau. Cred y Cyngor y bydd y cynnig yn gwireddu’r gwelliannau gofynnol mewn safonau a manteision darpariaeth gynradd drwodd, ac y byddent yn bodloni dyheadau’r Cyngor i Ysgol Gynradd Fairfield.

**Mater 6**

**Bydd y Feithrinfa yn agor ym mis Medi 2017**

Teimlodd ymatebwyr o blaid y cynnig y dylid sicrhau bod darpariaeth ar gael o fis Medi 2017.

**Ymateb y cyngor i'r pryderon a nodwyd**

Ni wneir penderfyniad ar sefydlu'r uned feithrin tan fis Mehefin 2017 sydd y tu allan i broses amserlen derbyniadau meithrin ar gyfer y flwyddyn academaidd 2017/2018.

Mae adeilad cyfnod sylfaen eisoes yn ei le yn Ysgol Gynradd Fairfield, i'w ddefnyddio ar gyfer darparieth feithrin. Os bydd y Cabinet yn cytuno i sefydlu meithrinfa yn Ysgol Gynradd Fairfield, bydd gofyn am addasiadau i'r adeilad presennol. Byddai ailfodelu'n cael ei wneud yn nhymor yr hydref 2017.  Y cynharaf y byddai'r feithrinfa'n barod i groesawu plant fyddai Ionawr 2018.

Bydd rhieni sy'n dymuno gwneud cais am le yn y feithrinfa yn gallu gwneud cais trwy wefan Bro Morgannwg pan fydd penderfyniad i agor y feithrinfa wedi'i wneud.

**Mater 7**

**Trafnidiaeth**

Roedd ymatebwr oedd o blaid y cynnig yn bryderus am gynnydd o ran trafnidiaeth yn yr ardal.

**Ymateb y cyngor i'r pryderon a nodwyd**

Ni ragwelir y bydd unrhyw effaith uniongyrchol ar lefelau trafnidiaeth yn yr ardal o amgylch yr ysgol. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd gan y plant oedran meithrin lai o bellter i deithio nag sydd ganddynt ar hyn o bryd. Fel arfer bydd gan ysgolion amserau dechrau a gorffen sy'n gorgyffwrdd ar gyfer plant meithrin o'u cymharu â grwpiau blwyddyn hŷn, felly rhagwelir y bydd ychydig o effaith yn unig ar dagfeydd trafnidiaeth yn yr ardal.

**Atodiad B**

Mae'r adran hon yn rhoi sylwadau a godwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori ffurfiol gan y rhai sydd o blaid y cynnig. Mae'r materion yn rhoi trosolwg o themâu'r ymatebion ac ni fwriedir iddynt fod air am air. Mae'r holl ymatebion ysgrifenedig ar gael i'r Aelodau Cabinet.

**Dilyniant o ran darpariaeth**

- Mae dilyniant darpariaeth sefydlog o ran addysg yn hanfodol bwysig am resymau cymdeithasol yn hytrach na rhai academaidd
- Bydd meithrinfa yn fuddiol i'r plentyn ac i'r ysgol
- Byddai meithrinfa ar y safle yn galluogi darpariaeth addysg ddi-dor ar gyfer disgyblion o 3-11 oed
- Bydd yn darparu dilyniant o ran addysg ar gyfer y plant ifanc
- Bydd yn rhoi sgiliau cyn ysgol perthnasol i ddisgyblion ar gyfer dechrau yn dosbarth derbyn

**Pontio gwell**

- Bydd yn sicrhau bod pontio i'r dosbarth derbyn yn haws o lawer ar gyfer y plant yn y dalgylch
- Bydd llai o gyffro a materion pontio
- Bydd plant yn y feithrinfa yn gyfarwydd â'r ysgol, athrawon a ffrindiau a fydd yn sicrhau bod pontio i'r dosbarth derbyn yn haws i blant.
- Bydd meithrinfa yn darparu mwy o gysondeb a phontio llyfnach ar gyfer disgyblion
- Darpariaeth addysg ddi-dor ar gyfer disgyblion o 3-11 oed

**Adnabod anghenion plant yn gynnar**

- Bydd cyfathrebu rhwng y feithrinfa a'r dosbarth derbyn yn galluogi mynd i'r afael ag anghenion gwahanol pob plentyn.
- Gellir monitro cynnydd plant

**Safonau gwell**

- Bydd meithrinfa yn galluogi'r ysgol i herio ac ymestyn safonau academaidd disgyblion ar bwynt cynharach yng ngyrfa'r disgybl

- Bydd meithrinfa yn creu darpariaeth cynradd drwodd ar gyfer plant 3 i 11 oed er mwyn gwella safonau yn yr ysgol
- Bydd meithrinfa yn darparu ymagwedd fwy cyson i ddysgu er mwyn parhau i godi safonau yn yr ysgol
- Byddai meithrinfa yn cyfrannu at godi safonau o'r cyfnod sylfaen i flwyddyn 6 a darparu ymagwedd gyson at addysgu a chynllunio dysgu disgyblion
- Bydd meithrinfa o fudd i'r ysgol a'i pherfformiad

**Ateb y galw yn y dyfodol**

- Bydd meithrinfa yn ateb y galw yn dyfodol ac yn darparu lleoedd meithrin o safon uchel yn ardal Penarth
- Nid oes lle yn Bute Cottage
- Mae Bute Cottage bob amser wedi'i gordanysgrifio
- Darparu lleoedd meithrin ychwanegol sydd eu hangen yn fawr ym Menarth

**Yn haws ar gyfer rhieni**

- Bydd yn haws i rieni ollwng yr holl blant yn yr un ysgol
- Bydd yn haws ar gyfer disgyblion sydd â phlant hŷn yn yr ysgol
- Y gallu i gael mynediad at ddarpariaeth y blynyddoedd cynnar, cyfnod sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 ar un safle

**Adeilad**

- Mae adeilad newydd gwych sy'n addas at y diben

**Cymuned/ Dalgylch Lleol**

- Mae ar Fairfield angen uned feithrin er mwyn gwasanaethu'r gymuned leol

- Bydd yn darparu gwasanaeth cydlynol ar gyfer sawl oedran ar gyfer plant a rhieni'r ardal

**Atodiad C**

Mae'r adran hon yn rhoi sylwadau ar gwestiynau cyffredin sy'n codi o'r ymarfer ymgynghori ar y cynnig.

**Pryd bydd fy mhlentyn yn gymwys i ddechrau addysg feithrin?**

Mae gan blant hawl i le rhan-amser mewn meithrinfa o ddechrau'r tymor sy'n dilyn eu pen-blwydd yn dair oed.

Os bydd eich plentyn yn 3 oed rhwng:

- 1 Ebrill – 31 Awst (gan gynnwys y diwrnodau hynny). Mae'n bosibl y caiff eich plentyn ei dderbyn yn ystod y Tymor Hydref ar ôl hynny
- 1 Medi – 31 Rhagfyr (gan gynnwys y diwrnodau hynny) mae'n bosibl y caiff eich plentyn ei dderbyn yn ystod y Tymor Gwanwyn ar ôl hynny.
- 1 Ionawr – 31 Mawrth (gan gynnwys y diwrnodau hynny) mae'n bosibl y caiff eich plentyn ei dderbyn yn ystod y Tymor Haf ar ôl hynny.

Gall eich plentyn ddechrau addysg llawn amser yn y mis Medi yn dilyn ei ben-blwydd yn bedair oed, felly, yn dibynnu ar ei ddyddiad geni, mae'n bosibl y gall fynychu meithrinfa am hyd at 2 flwyddyn academaidd.

**A fydd pennaeth newydd ar gyfer y feithrinfa?**

Bydd yr uned feithrin yn rhan integredig o Gyfnod Sylfaen yr ysgol. Bydd pennaeth yr ysgol gynradd yn ymestyn ei gylch gorchwyl i gynnwys ystod oedran estynedig yr ysgol. Bydd cydlynydd y cyfnod sylfaen yn ymestyn ei gyrch gorchwyl er mwyn cynnwys y plant oed meithrin.

**A fydd gofyn i'r plant meithrin wisgo gwisg ysgol?**
Mae hynny'n benderfyniad a gaiff ei wneud gan y pennaeth a chorff llywodraethu'r ysgol.

**Beth fyddai'r trefniadau derbyn ar gyfer yr ysgol newydd?**

Mae gan blant hawl i le rhan-amser mewn meithrinfa o ddechrau'r tymor sy'n dilyn eu pen-blwydd yn dair oed. Cyngor Bro Morgannwg yw awdurdod derbyn yr ysgol, ar gyfer y feithrinfa ac ar gyfer y flwyddyn derbyn. Fel arfer pennir trefniadau derbyn yn flynyddol gan y Cyngor ac amlinellir y rhain yn y Canllaw i Rieni ar Dderbyniadau Ysgol y gellir dod o hyd iddo ar wefan y Cyngor. Nid yw mynychu dosbarth meithrin yn rhoi hawl awtomatig i blentyn gael lle yn y dosbarth derbyn yn yr un ysgol. Atgoffir rhieni, os cânt cynnig lle ar gyfer eu plentyn yn y feithrinfa, mae'n rhaid gwneud cais arall ar gyfer mynd i mewn i ddosbarth derbyn yr ysgol.

**A fydd ystod oedran estynedig yr ysgol yn golygu y bydd enw newydd ganddi?**

Y cynnig yn y ddogfen yw ymestyn ystod oedran yr ysgol yn unig. Ni fydd angen i'r ysgol newid ei henw.

**A fydd polisïau'r newid ysgol i adlewyrchu'r plant oedran meithrin newydd a'u hanghenion?**

Bydd hyn yn fater i'r corff llywodraethu a phennaeth yr ysgol. Bydd yr ysgol yn adolygu ei pholisïau i sicrhau bod yr holl blant yn yr ysgol yn cael eu cynnwys ym mholisïau'r ysgol

**Mae fy nhrefniadau o ran gofal plant yn ei wneud yn bwysig i mi gael lle yn fy newis ysgol sydd y tu allan i'm dalgylch. A gaiff hyn ei gymryd i ystyriaeth?**

Yn anffodus, ni ellir cymryd trefniadau gofal plant i ystyriaeth. Bydd plant o'r dalgylch bob amser o'r flaenoriaeth uchaf ar gyfer mynd i mewn i'r ysgol o'u cymharu â phlant o'r tu allan i'r dalgylch.

**Atodiad D**

**Ymgynghori â phobl ifanc**

**Ymgynghoriad ar ran Cyngor Bro Morgannwg ar y cynnig i ymestyn ystod oedran Ysgol Gynradd Fairfield o 4-11 oed i 3-11 oed, trwy sefydlu uned feithrin yn yr ysgol.**

**Trafodaeth â gafwyd â chynrychiolwyr Cyngor Ysgol yr ysgol**

**23 Ionawr 2017**

**Cefndir a Nod.**

- Yn eu dogfen ymgynghori ar y cynnig uchod nododd Cyngor Bro Morgannwg yr angen i roi cyfle i ddisgyblion yr ysgol i fod yn rhan o'r broses.

- Bydd y wybodaeth a gasglwyd o'r ymgynghoriad yn ffurfio rhan o'r adroddiad a gaiff ei gyflwynio i Gabinet y Cyngor i'w ystyried yn dilyn y cyfnod ymgynghori.

**Methodoleg**

- Ymgorfforwyd methodoleg ryngweithiol fel y rhoddwyd cyfle i bob disgybl drafod, rhannu a rhoi llais i'w syniadau eu hunain.

- Dechreuodd gyda thrafodaeth ar ystyr ymgynghoriad a pham ei fod yn bwysig siarad â disgyblion.

- Parhaodd rhagor o drafodaethau ar beth oedd yn nodweddu trafodaeth/ ymgynghoriad da a sefydlwyd rheolau sylfaenol er mwyn sicrhau y byddai'r broses yn llwyddiannus.

- Esboniwyd prif agweddau’r ymgynghoriad iddynt, gan gynnwys y cefndir ac amserlen er mwyn sicrhau eu bod yn gwybod y diweddaraf o ran y wybodaeth berthnasol.

- Rhannwyd yr 16 disgybl yn 4 grŵp er mwyn trafod a ffurfio eu barn eu hunain ar gryfderau a gwendidau posibl y cynnig.

- Wedyn cyfunodd y grwpiau er mwyn rhannu eu canfyddiadau, gan ymgorffori'r rheolau ymgysylltu fel y'u cytunwyd ar ddechrau'r sesiwn.

- Rhoddwyd mewnwelediad i'r manteision a'r anfanteision a restrir yn y ddogfen Ymgynghori.

- Cymerwyd pleidlais ar ddiwedd y sesiwn er mwyn crynhoi ymatebion.

**Ymatebion disgyblion**

**Beth yw ystyr ymgynghoriad?**

- Cyfarfod
- Cymuned o bobl yn rhoi syniadau
- Siarad
- Cydweithredu
- Trafod

**Beth yw trafodaeth dda?**

- Cael adnabod pawb
- Bod â thema i'r drafodaeth
- Gwrando
- Bod yn amyneddgar
- Dangos goddefgarwch
- Rhoi ein syniadau at ei gilydd

**Buddion y cynllun arfaethedig**

- Llai o deithio i leoedd gwahanol os bydd plant teuluoedd yn yr un ysgol – yn haws ar gyfer rhieni
- Mwy o gyfle i ddisgyblion aros gyda'u ffrindiau ar ôl y feithrin
- Adnabod yr ysgol a'r athrawon yn well pan fyddwch yn dechrau yn y dosbarth derbyn
- Mae'n haws i'r athrawon oherwydd byddant yn adnabod y plant eisoes
- Os byddant yn crio yn y dosbarth meithrin gallant weld eu brawd neu chwaer hŷn;
- Gallant fod gyda'u brodyr a'u chwiorydd
- Maen haws setlo yn yr ysgol
- Byddant yn gwybod rheolau'r ysgol pan fyddant yn dechrau yn y dosbarth derbyn
- Bydd yn annog mwy o bobl i ddod i'r ysgol hon
- Bydd plant yn cael mwy o brofiadau oherwydd y byddant yn rhan o weithgareddau'r ysgol gyfan
- Bydd yn llai argoelus ar gyfer y plant pan fyddant yn dechrau'r ysgol
- Byddant yn gwneud ffrindiau yn haws
- Ni fydd disgyblion mor nerfus wrth ddechrau yn yr ysgol
- Defnydd gwell o'r lle yn yr ysgol – gellir defnyddio'r iard er mwyn cynnig mwy o gyfleoedd

- Bydd yn arbed petrol ac felly'n fwy eco-gyfeillgar; byddai'n achosi llai o lygredd

**Anfanteision posibl y cynllun arfaethedig**

- Sicrhau bod y disgyblion oed meithrin yn aros yn eu lle, creu parth meithrin er diogelwch y plant a sicrhau bod oedolyn gyda nhw
- Bydd angen llawer mwy o offer ac felly mwy o arian
- Gallai fod mwy o draffig
- Gallai fod yn fwy swnllyd
- Mwy o giwiau o gwmpas yr ysgol
- Mae'n bosibl na fydd rhai plant hŷn eisiau i'r brawd neu'r chwaer iau ddod atynt a rhoi cwtsh - felly bydd angen i'r ysgol roi gwybod i blant pryd y gallant a phryd na allant weld eu brodyr/chwiorydd
- Mae'n bosibl na fydd rhai pobl yn gyfforddus gyda phlant llai o'u cwmpas felly mae angen bod yn ymwybodol o hyn

**Casgliadau:**

Er y daeth yn amlwg o'r adborth a'r drafodaeth fod y disgyblion yn frwd o blaid y datblygiad arfaethedig hwn, cymerwyd pleidlais ddi-enw ar ddiwedd y gweithdy er mwyn mesur barn unigol. Gwnaed hyn drwy ddefnyddio'r ymarfer 'bodiau i fyny/bodiau ar draws/bodiau i lawr' Y canlyniad oedd:

| | |
|---|---|
| Peth da: | 14 |
| Ansicr: | 2 |
| Yn erbyn: | 0 |

**Sylw terfynol:**

Roedd hon yn sesiwn galonogol gyda naws gadarnhaol yn deillio o'r disgyblion. Roeddent yn awyddus i amlygu'r ffaith fod Fairfield yn ysgol hapus a gofalgar. 'Rydym i gyd yn hapus'... 'pobl yn cael hwyl ar yr iard'.... 'Byw. Gweithio, chwarae gyda'n gilydd'; ar y diwedd, dywedant – 'Gadewch i ni sicrhau mai'r Feithrinfa hon yw Meithrinfa orau'r Byd'

**Atodiad E**

# Ymateb Estyn i'r ymgynghoriad

**Ymateb Estyn i gynnig Cyngor Bro Morgannwg i ymestyn ystod oedran Ysgol Gynradd Fairfield i 3 i 11 oed ac i greu uned feithrin yn yr ysgol, o fis Ionawr 2018 ymlaen.**

Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi gan Arolygydd Ei Mawrhydi Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

Dan delerau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'r Cod cysylltiedig, mae gofyn i gynigwyr anfon dogfennau ymgynghori at Estyn. Fodd bynnag, nid yw Estyn yn gorff y mae gofyn iddo weithredu yn unol â'r Cod, ac nid yw'r Ddeddf yn gosod unrhyw ddyletswyddau statudol ar Estyn mewn perthynas â materion trefniadaeth ysgolion. Felly, fel corff sydd ynghlwm wrth yr ymgynghoriad, bydd Estyn yn cynnig eu barn dim ond ar gynigion trefniadaeth ysgolion yn eu cyfanrwydd.

Mae Estyn wedi ystyried yr agweddau addysgol ar y cynnig ac wedi llunio'r ymateb canlynol i'r wybodaeth a ddarperir gan y cynigiwr ac unrhyw wybodaeth bellach arall megis data Llywodraeth Cymru a barn y Consortia Rhanbarthol sy'n darparu gwasanaethau gwella ysgolion i ysgolion yn y cynigion.

Mae Estyn wedi llunio'r ymateb canlynol i'r wybodaeth a ddarperir gan y cynigiwr.

## Cyflwyniad

Mae'r cynnig hwn gan Gyngor Bro Morgannwg.
Mae'r cynnig ynghylch:

- Ymestyn ystod oedran Ysgol Gynradd Fairfield i 3-11; ac i
- Greu uned feithrin yn yr ysgol, a fydd yn weithredol o fis Ionawr 2018 ymlaen.

## Crynodeb/Casgliad

Bydd yr uned feithrin newydd yn cyfrannu at ateb y galw presennol am leoedd meithrin yn yr ardal leol ac yn cynnal safon ddarpariaeth bresennol yr ardal.

## Disgrifiad a manteision

Mae'r cynigiwr wedi darparu rhesymeg glir dros y cynnig. Ei nod yw ymestyn yr ystod oedran yn Ysgol Gynradd Fairfield o 4-11 oed i 3-11 oed er mwyn sefydlu dosbarth meithrin gyda 60 lle rhan amser yn yr ysgol.

Mae'r cynnig hwn yn rhan o strategaeth i symud tuag at fodel ysgol gynradd o addysg 3-11 oed, ledled Bro Morgannwg.

Byddai darpariaeth feithrin yn Ysgol Gynradd Fairfield yn cael ei galluogi drwy ddefnyddio adeilad Cyfnod Sylfaen sydd eisoes ar waith yn Ysgol Gynradd Fairfield. Byddai angen ychydig o waith addasu ar yr adeilad er mwyn ei wneud yn addas ar gyfer darpariaeth feithrin, a byddai modd talu am y gwaith hwn gyda chyllid sydd wedi'i glustnodi yn rhaglen gyfalaf y Cyngor.

Mae'r cynigiwr yn nodi'n glir y manteision disgwyliedig a'r anfanteision posib o'r cynnig, ac wedi darparu asesiad risg addas gan nodi gweithrediadau lleddfu perthnasol.

Mae'r cynigiwr wedi ystyried yr opsiwn amgen, sef gwneud dim. Fodd bynnag, ni fydd hyn yn gwireddu'r gwelliannau sydd eu hangen o ran safonau a'r manteision o ddarpariaeth gynradd pob oedran, ac ni fydd ychwaith yn bodloni dyheadau'r Cyngor ar gyfer Ysgol Gynradd Fairfield.

Effaith bwriedig y cynnig yw creu darpariaeth gynradd pob oedran ar gyfer plant 3 i 11 oed er mwyn gwella safonau yn Ysgol Gynradd Fairfield. Byddai'r cynnig hefyd yn ateb y galw yn y dyfodol ac yn cynnig lleoedd meithrin awdurdod lleol o safon ychwanegol yn yr ardal.

Mae'r cynnig wedi ystyried yn briodol effaith y cynnig ar drefniadau teithio'r dysgwyr. Dan y cynigion hyn, nid oes cynlluniau i newid polisi'r Cyngor ar drafnidiaeth plant i ac o'r ysgolion. Yn y rhan fwyaf o achosion, byddai'r rhan fwyaf o blant oed meithrin sy'n byw yn y dalgylch yn gorfod teithio llai na'r hyn y maen nhw'n teithio ar hyn o bryd.

**Agweddau addysgol ar y cynnig**

Mae'r cynigiwr wedi nodi llawer o fanteision ac anfanteision y cynnig hefyd. Mae'r cynigiwr wedi ystyried yr effaith ar ganlyniadau addysgol, darpariaeth, addasu adeiladau ysgol a chyfleusterau ac arweinyddiaeth a llywodraethu. Mae'n rhesymol tybio bod y cynnig yn debygol o gynnal safonau presennol yn yr ardal o ran darpariaeth.

Mae'r cynigiwr wedi ystyried canlyniadau'r ysgol yn sgil arolygiad mwyaf diweddar Estyn. Mae'r consortiwm lleol wedi gosod yr ysgol yn y categori cefnogaeth melyn, sy'n nodi bod yr ysgol yn ysgol effeithiol sy'n ymwybodol o'r meysydd sydd angen eu gwella.
Mae'r cynigiwr yn ystyried yn rhesymol fod y cynnig yn cefnogi cynnydd o ran dysgu plant ac yn darparu cydlyniant rhwng y sector meithrin a'r sector cynradd.

Mae'r cynigiwr yn nodi'n rhesymol y byddai'r feithrinfa yn galluogi adnabod ac ymyriadau cynnar i ddisgyblion gydag AAA, a fyddai'n cael ei adlewyrchu drwy bontio gwell a chanlyniadau addysgol gwell i'r disgyblion hyn.

Mae'r cynigiwr wedi nodi cynnydd posib mewn tagfeydd traffig o amgylch yr ysgol a mân addasiadau i'r adeiladau cyfredol. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn cynnig gweithio gyda chorff llywodraethu'r ysgol i ddatblygu Cynllun Teithio i leihau unrhyw darfu posibl.

ANNEX F

Bute Cottage Nursery School

VALE of GLAMORGAN

BRO MORGANNWG

Bute Lane
Off Grove Place
Penarth CF64 2ET

Ysgol Feithrin Bute Cottage
Lôn y Bute
Plas Grove
Penarth CF64 2ET

Tel & Fax/Ffôn a Ffacs: (029) 20702957

Email: butecottNS@valeofglamorgan.gov.uk
Head Teacher: Mrs Jo Bryant

13 February 2017

To whom it may concern

We as a staff are writing in response to your consultation document setting out your proposal to establish a Nursery unit at Fairfield Primary School.

We believe the value of the remaining stand-alone Nursery schools in the Vale of Glamorgan in supporting children and families in Penarth is neither reflected nor recognised in this proposal and we remain extremely concerned that assertion that the new Nursery unit will not influence the future of Bute Cottage Nursery is incorrect. We have never been approached by Fairfield Primary School to review current transition arrangements and therefore had no idea that Fairfield Primary School was having challenges. Had this been the case we would of course have offered every support possible to help both them and other Vale of Glamorgan settings, either maintained or non-maintained. We have hosted cluster moderation evenings with staff from all the schools in Penarth to support consistency of judgements in assessment and tracking; it would have been an easy step to invite staff from additional settings had Fairfield Primary School staff requested it.

It is a very simplistic and misleading view of Fairfield Primary School, its Governors and Head Teacher, that their standards are low only because of any 'challenges' they perceive in transition to Reception, and that this 'quick fix' will not deliver the significant improvements that are required.

Below we present out questions and concerns about the proposal for your consideration.

A. On page 11 information showing where children attending Bute Cottage and Cogan Nursery schools transferred to Reception for the last 2 years is provided. No information is provided on the other settings feeding Fairfield Primary school and whether these were maintained / non-maintained / within the Vale of Glamorgan / outside the Vale of Glamorgan.
QUERY: Without similar information on the Nursery settings that currently feed Fairfield Primary School's Reception class and how many of them are non-maintained private nurseries/day care it is not possible to gain an effective overview of the challenges facing Fairfield Primary reception class? EVERY school receives children in Reception from nurseries other than their own and it is the responsibility of the 2 schools/settings involved to discuss and agree the exchange of information that is required. If this has not been happening with Fairfield Primary school perhaps it is a failing of their leadership and transition management.

B. On Page 12 the projected numbers for Fairfield Primary School until 2020/2021 is provided. This information is not enough to make an informed decision about this proposal.
QUERY: It is also essential to publish the projected numbers for the other schools close to Fairfield Primary School in the Penarth cluster, including Bute Cottage Nursery, in order to see where and when numbers on roll could/may be a problem.

C. On Page 12 details are provided of the number of primary aged and nursery children currently residing in the Fairfield catchment area as well as the number of children currently attending Fairfield Primary school from within the catchment area. There is a significant disparity of 152 catchment children whose families have chosen to send their children elsewhere.
QUERY: What research has been undertaken by either the school or the Local Authority to identify the reasons **why** catchment families may have chosen to send their children to Reception classes in other settings? And where is this research available for others to see? Without this research the assumption that *'a nursery unit would encourage more local*

*children to attend the school in future*' is unfounded and possibly misleading. There are a multitude of reasons why families may have decided to send their children to out-of-Fairfield-catchment schools which will not ALL be answered by the establishment of a Fairfield Nursery unit. It will NOT be a 'quick fix' for the school nor the Local Authority.

D. On page 12 It is stated that 'the reception intake of the school is often filled from parents' who have opted for the school as a second or third preference.'
QUERY: What research has been undertaken by either the school or the Local Authority to ascertain how many families in Fairfield catchment WOULD have chosen to send their children to a Nursery in Fairfield? And where is this research available for others to see? In this research what reasons have been given for their decision not to?

E. On Page 15 it is stated that creating an all-through primary school for 3-11 year olds will '*enhance standards at Fairfield Primary School*'?
QUERY: What research supports this statement as it implies that children have been disadvantaged by the current stand-alone Nurseries feeding Fairfield Primary reception classes? Both of these stand-alone Nursery schools have been held as examples of excellent Foundation Phase practice and have worked extensively and closely in developing effective transition links with Fairfield Primary School.

F. On Page 15 it is stated that '*the proposal would also meet future demand*' yet you provide no details of future demand for Nursery spaces in Penarth.
QUERY: What is the projected future demand for local authority nursery places in the Penarth area? Cogan Nursery School has spaces and Bute Cottage is nearly full. How can 60 additional spaces be justified financially if current Nursery provision is not full?

G. On Page 15 The statement that '*the proposal supports continuity and progression in children's learning from age 3 and provides cohesion between the nursery and primary sector providing a high quality learning environment for children*' suggests that children are being disadvantaged by the current arrangements where the school is being fed by other settings including two excellent Nursery schools, and that the learning environment in these settings is not of high quality.
QUERY: What evidence do you have to support this claim?

H. On page 15 it is stated *'The transition of pupils from nursery to reception would be better facilitated with a greater focus on standards.'*
QUERY: What evidence do you have to indicate that the settings currently feeding Fairfield Primary school reception do NOT focus on standards?

I: On page 15 it is stated*: This would be readily achieved through a common process of tracking, monitoring and interventions from nursery through to year two and beyond'*
QUERY: This is exactly what the Welsh Government's Foundation Phase Profile tracking tool was designed to ensure. If the other settings feeding Fairfield Primary School are in the Vale of Glamorgan and are performing inadequately then it is the role of the Local Authority staff to work with these settings, both maintained and non-maintained, to improve: the quality of teaching and learning; and the learning environment; and implementation of the Welsh Government's Foundation Phase Profile assessment tool. What work is the LA undertaking to ensure this and where is this work reported?

J. On page 16 It is stated that '*The proposal is unlikely to have a significant impact on any other schools in the local and surrounding area. Whilst the council is increasing the supply of nursery places in the Penarth area, the current demand each year is such that a number of children are often refused entry to maintained nurseries and are unable to take up nursery school places as a result*'
QUERY: As Cogan Nursery has spaces and Bute Cottage is nearly full, how many children over the past 3 years have been refused access to a maintained Nursery place once eligible? Does this number justify the financial expenditure in establishing a new Nursery unit?
K: QUERY: Has there been an Equality Impact Assessment on the other schools in the area and how the establishment of a 60-place nursery will affect other settings? What was the result and where can the findings be seen by the public?

L. On Page 19 admissions criteria is discussed. It is stated in the Vale of Glamorgan Admissions Criteria that attendance at a Nursery class in a Primary School does not guarantee a child a place in Reception in that Primary School.

QUERY: Does the opposite apply? Will there be preference given to children attending the Nursery class when transferring to the Reception class? How will this be monitored to ensure equality of access for all families and parental choice? Will families attending Bute Cottage be disadvantaged in allocating spaces in Reception?

M. What other English medium schools in the Vale of Glamorgan receive children in Reception who do not live in the Vale of Glamorgan? Do these schools also find transition between settings such a challenge?

N. It is recognised as good practice for schools to have clear procedures and expectations on transition in a Transition Policy or Transition Plan and that these are reviewed and updated regularly to ensure children and families are given effective support on transfer. Both Bute Cottage Nursery and Cogan Nursery work very hard to ensure the transfer of information is prompt, accurate and relevant, and offer additional opportunities for children to meet Reception staff before transfer in September.
QUERY: What steps has Fairfield Primary School taken to improve and update its transition procedures with other settings in order to improve transition for all children?

O. Poor teaching in the Foundation Phase (resulting in many families deciding NOT to send their children to Fairfield Primary School) is the result of poor standards. To claim it is poor transition arrangements illustrates an additional failing in the school. QUERY: Rather than increasing the age range in a Foundation Phase with poor teaching would the children not be better served by developing more capacity in the existing excellent quality Nursery schools in Penarth where services, resources, experience and staff already exist?

Thank you for your time

Yours faithfully

Mrs Jo Bryan
Head Teacher

**Atodiad G**

27 Ionawr 2017

Mr Mike Matthews

Cyfarwyddiaeth Dysgu a Sgiliau

Cyngor Sir Bro Morgannwg

Tŷ Provincial

Heol Kendrick

Y Barri

CF62 8LF

**Darpariaeth Feithrin**

Annwyl Mike,

Fel Corff Llywodraethu rydym wedi cadarnhau ein bod yn cytuno y bydd darpariaeth Feithrin newydd i Ysgol Gynradd Fairfield o fudd mawr i rieni, plant a’r ysgol.

Fe gofiwch, rai blynyddoedd yn ôl y cawsom hefyd wybod y byddem yn cael darpariaeth Meithrin yn Evenlode, ond tynnwyd hyn yn ôl. O ystyried y datblygiad yn Fairfield rydym nawr yn gofyn i’r Cyngor eto ystyried lleoli Darpariaeth Feithrin yn Ysgol Gynradd Evenlode.

Mae rhesymau rhagorol dros ystyried hyn.

- Mae bron pob un o blant Bute Cottage bellach yn symud i Evenlode
- Bu dros y ddwy flynedd ddiwethaf bryderon ynghylch 'pontio' plant o Bute i Evenlode.

Mae un pryder ynghylch yr asesiad cyson y cytunwyd arno o le 'mae' plant o ran eu dysgu pan gyrhaeddant Evenlode a gwelwyd hyn yn nata GIANTs y llynedd. Cafodd effaith sylweddol ar staff addysgu, sydd wedi gwneud llawer o waith i 'ddal i fyny' pan fo plant yn cyrraedd y Dosbarth Derbyn.

Mae, yn naturiol, ethos gwahanol yn Bute ac mae plant yn cyrraedd ag agweddau at ddysgu ac ymddygiad cymdeithasol sy'n cymryd amser i addasu. Mae symud o ysgol â nifer o ardaloedd chwarae/dysgu ac ardal awyr agored helaeth sy'n rhoi'r rhyddid i symud a dewis i ddisgyblion i 2 ystafell ddosbarth fechan iawn â chymhareb disgyblion:athrawon fwy yn broblem fawr o ran pontio. Ynghyd â hyn, mae disgyblion hefyd yn wynebu cwricwlwm mwy ffurfiol yn dilyn disgwyliadau ar y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol a'r fframwaith newydd.

- Rydym yn gweithio'n ddygn gyda Bute ar ein proses bontio a bu'r trafodaethau rhwng y ddwy ysgol yn dda er bod o hyd gwrthdaro buddiannau rhwng cynlluniau ffoneg ac ysgrifennu. Rydym wedi gwneud trefniadau i gael staff o'r ddau leoliad i ymweld â'i gilydd ond mae hyn yn cymryd amser ac mae'n ddrud. Bwriadwn hefyd wahodd grwpiau o blant i dreulio amser yn Evenlode dros dymor yr haf sy'n creu anawsterau i rieni ond credwn fod hyn yn bwysig wrth feithrin hyder disgyblion a'u cyflwyno i fywyd yn y dosbarth derbyn. Petai'r holl blant ar y safle, gellid datrys hyn yn haws.

- O ystyried nifer y plant ag anghenion dysgu cymhleth sy'n dod i'r dosbarth derbyn gall symud o un lleoliad i'r llall fod yn anos i'r plant hyn ymdopi ag ef.

- Mae'n rhaid bod y Cyngor yn cydnabod bod rhedeg dau safle, â dau Bennaeth, yn ddrud. Oni fyddai gosod Meithrinfa ar un safle'n fwy cost-effeithiol? Ar adeg pan fo cyfyngiadau a phwysau enfawr ar gyllidebau ysgolion, onid yw hyn yn gwneud 'synnwyr ariannol'?

- Heblaw am Cogan (ac mae'r feithrinfa a'r ysgol gynradd yn agos iawn at ei gilydd) Evenlode bellach yw'r unig ysgol ym Mhenarth heb Feithrinfa. Y 'duedd' yn y Fro, ymddengys, yw symud at osod darpariaeth Feithrin a Chynradd ar un safle. (Tregatwg a Fairfield yw'r enghreifftiau diweddaraf). Rydym felly'n gofyn i'r Cyngor ystyried o ddifrif rhoi darpariaeth Feithrin i Evenlode.

Gobeithio y gallwch ystyried ein cynnig. Edrychwn ymlaen at eich ymateb.

Yn gywir,

Ceri Griffiths

Cadeirydd y Llywodraethwyr, Ysgol Gynradd Evenlode

| | | |
|---|---|---|
| *cc.* | *Paula Ham* | *Pennaeth Strategaeth, Dysgu Cymunedol ac Adnoddau* |
| | *S Rees* | *Pennaeth Ysgol Gynradd Evenlode* |

**Date**/Dyddiad 22 Chwefror 2017

**Ask for**/Gofynwch am Trevor Baker

**Telephone**/Rhif ffôn 01446 709118

**Fax**/Ffacs

**e-mail**/e-bost tbaker@valeofglamorgan.gov.uk

**Your Ref**/Eich Cyf

**My Ref**/Cyf TB/JMJ

**The Vale of Glamorgan Council**
Learning and Skills
Provincial House, Kendrick Road, Barry CF62 8BF
Telephone: (01446) 700111
www.valeofglamorgan.gov.uk

**Cyngor Bro Morgannwg**
Dysgu a Sgiliau

Tŷ'r Dalaith, Heol Kendrick, Y Barri CF2 8BF

Rhif ffôn: (01446) 700111

VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

Mrs J Bryan

Pennaeth

Meithrinfa Bute Cottage

Oddi ar Grove Place

Penarth

CF64 2ET

Annwyl Mrs Bryan,

Diolch am roi o'ch amser i ymateb i'r ymgynghoriad ar y cynnig i newid cymeriad Ysgol Gynradd Fairfield yn ysgol 3-11 ysgol drwy sefydlu uned feithrin. Nod y cynnig yw mynd i'r afael â rhai o'r heriau a'r cyfleoedd i Ysgol Gynradd Fairfield ac nid gwerthuso perfformiad y lleoliadau bwydo. Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod y ddarpariaeth ragorol i ddisgyblion meithrin a rydd y meithrinfeydd unigol, Bute Cottage ac Ysgol Feithrin Cogan, a dymuna eich sicrhau nad oes newidiadau i'r ddarpariaeth feithrin bresennol o ganlyniad i'r cynnig hwn. Bydd y Cyngor yn parhau i gefnogi'r meithrinfeydd unigol er lles y disgyblion.

Er bod y Cyngor yn gwerthfawrogi'r pryderon a fynegir o ran trefniadau pontio rhwng lleoliadau meithrin ar wahân i addysg gynradd, mae'n werth ailadrodd nad yw Bute Cottage ond yn gyfrifol am nifer fach o ddisgyblion sy'n symud o'r feithrinfa i Ysgol Gynradd Fairfield. Nid dim ond Ysgol Gynradd Fairfield sy'n wynebu'r heriau o ragor o bontio o ysgolion cynradd; mae tystiolaeth gan ysgolion cynradd eraill heb uned feithrin yn nodi bod pontio'n bryder pan fo dulliau dysgu gwahanol

ymhlith meithrinfeydd gwahanol (os o gwbl), a phrin yw dylanwad penaethiaid ysgolion cynradd ar hyn.

O ystyried y galw am leoedd disgyblion, mae'r cyngor o'r farn  fod y cynnig yn annhebygol o gael effaith sylweddol ar unrhyw ysgolion eraill yn yr ardal leol.  Er bod y cyngor yn cynyddu'r cyflenwad lleoedd meithrin yn ardal Penarth, mae cymaint o alw ar hyn o bryd fel y gwrthodir mynediad i feithrinfeydd a gynhelir i nifer o blant o ganlyniad i hynny. Cydnabyddir hefyd fod llawer mwy o ddisgyblion Bute Cottage yn symud i Evenlode nag i Ysgol Gynradd Fairfield.

Caiff Bute Cottage ei gordanysgrifio'n aml bob blwyddyn a chaiff rhieni eu troi i ffwrdd, ac o ganlyniad ni fyddant yn aml yn manteisio ar ddarpariaeth feithrin. Mae tueddiad gan rieni i ailymgeisio am le yn Bute Cottage y flwyddyn academaidd ganlynol. Caiff Meithrinfa Cogan

gefnogaeth fawr bob blwyddyn.

Mae ymatebion i'r pryderon unigol yn eich llythyr isod:

A. Mae Ysgol Gynradd Fairfield yn denu disgyblion o amrywiaeth o feithrinfeydd, gyda dim ond nifer fechan yn dod i'r dosbarth derbyn o Bute Cottage (14 ym Medi 2016). Mae amrywiaeth a dosbarthiad meithrinfeydd preifat neu a gynhelir, os yn berthnasol, yn gallu cyfrannu at rai o'r heriau gweithredol wrth reoli pontio i'r dosbarth derbyn. Mae heriau pontio yn hysbys iawn yn Fairfield, ond nid yw data sy'n ymwneud â  hyn yn arbennig o berthnasol i'r cynnig oherwydd nifer gymharol fechan y disgyblion sy'n dod o ddarparwyr meithrin eraill.

B Wrth baratoi at y cynnig hwn mae'r cyngor wedi ystyried y niferoedd a ragfynegir ar gofrestri holl ysgolion yr ardal. Ar ôl cwblhau dadansoddiad manwl daethpwyd i'r casgliad na chaiff y cynnig hwn effaith fawr ar ysgolion eraill yn yr ardal ac felly nid y'i hystyriwyd yn angenrheidiol i gynnwys y data manwl hwn.

C Mae lefel sylweddol o ddata derbyniadau i ategu'r casgliad fod dewis rhieni ym Mro Morgannwg yn tueddu at ymgeisio am le dosbarth derbyn o'r uned feithrin. Mae dewis rhieni'n fater i nifer o ysgolion, nid Ysgol Gynradd Fairfield yn unig, ac mae nifer fawr o ddisgyblion yn mynychu ysgolion y tu allan i'w dalgylch am amryw resymau. Mae adborth gan randdeiliaid a gasglwyd drwy arolygon a sesiynau galw heibio fel rhan o'r broses ymgynghori hefyd yn ategu'r ffaith fod diffyg darpariaeth drwodd yn un o'r ffactorau sy'n dylanwadu ar ddewis rhieni, a gan fod hwn yn ffactor na all y Cyngor ei reoli, mae'n ddyletswydd arnom ni i fod yn rhagweithiol wrth ateb unrhyw heriau sy'n deillio ohono.

D Mae'r datganiad sy'n cyfeirio at Ysgol Gynradd Fairfield yn cael ei llenwi fel ail neu drydydd dewis yn seiliedig ar ddata ffeithiol sydd ar gael i'r Awdurdod Lleol drwy ein prosesau derbyn. Mae rhieni'n dweud yn gyson wrthym ei bod yn bwysig bod eu holl blant yn mynychu'r un safle ysgol er cyfleustra'r teulu ac o ran rhoi cefnogaeth emosiynol i frodyr a chwiorydd. Hefyd gwneir nifer o geisiadau cychwynnol i Fairfield dan ragdybiaeth bod uned feithrin ar gael. Bydd rhieni yna'n ailystyried eu dewis yn seiliedig ar y wybodaeth nad oes darpariaeth feithrin ar gael yn Fairfield.

E Mae diben y cynnig hwn a'r rhesymeg a gyflwynwyd ynddo'n seiliedig ar sut y gall yr Awdurdod Lleol helpu i godi safonau yn Ysgol Gynradd Fairfield. Nid yw'n werthusiad o ddarpariaeth feithrin unigol, ac nid yw mewn unrhyw ffordd yn awgrymu bod plant dan anfantais drwy fynychu meithrinfeydd unigol fel yr ydych wedi'i awgrymu.

Mae'r Cyngor o'r farn bod modd cyflawni dysgu o safon uchel mewn dosbarthiadau meithrin a meithrinfeydd unigol. Ceir tystiolaeth o hyn trwy adroddiadau arolygiadau Estyn ar gyfer ysgolion cynradd â dosbarthiadau meithrin ledled Bro Morgannwg. Dywedodd adroddiad diweddar gan y Cydwasanaeth Addysg fod tîm arwain Ysgol Gynradd Fairfield mewn sefyllfa gref i allu cyflwyno darpariaeth feithrin yn yr ysgol a sicrhau ei bod yn cynnig profiad dysgu o safon uchel i'r holl blant. Byddai hanes yr ysgol o wella cyrhaeddiad y rhan fwyaf o ddysgwyr y sicr yn cael ei atgyfnerthu. Byddai dull cyson o addysgu a chynllunio dysgu disgyblion o ran dilyniant a chynnydd hefyd yn cyfrannu at godi safonau ar draws yr ysgol.

F. O ran ateb y galw yn y dyfodol, mae'r cyngor yn ymrwymedig i gynyddu cyflenwad y lleoedd meithrin yn ardal Penarth, mae cymaint o alw ar hyn o bryd fel y caiff nifer o blant eu gwrthod yn aml o ran cael mynediad at feithrinfeydd a gynhelir o ganlyniad. Nid yw'r galw sydd ohoni'n cael ei ateb, gan nad yw rhieni y gwrthodir lle ysgol i'w plant yn manteisio ar le meithrin. Bydd sefydlu meithrinfa yn Ysgol Gynradd Fairfield yn rhoi mwy o ddewis i rieni ac mae potensial i gynnig mwy o ddewis i rieni bob blwyddyn.

G. Fel y nodir uchod mewn ymateb i bwynt E, nid yw'r Cyngor yn awgrymu bod plant dan anfantais o fynd i feithrinfeydd unigol. Mae'r cynnig hwn yn canolbwyntio ar yr hyn y gellir ei wneud yn Fairfield i gefnogi disgyblion, teuluoedd a gwella canlyniadau. Cafodd Ysgol Gynradd Fairfield ei hadnabod gan Estyn fel un lle dylai'r Cyngor gymryd ymagwedd fwy uniongyrchol i herio perfformiad. Wrth ddangos ymrwymiad i dwf cyflym a chyson, cafodd nifer o rwystrau eu hadnabod. Cred y Cyngor y bydd y cynnig yn arwain at fwy o welliannau mewn safonau a manteision darpariaeth gynradd drwodd, ac y byddent yn bodloni dyheadau'r Cyngor i Ysgol Gynradd Fairfield.

H. Mae’r cyfeiriad at y cysylltiad rhwng canolbwyntio ar safonau a rheoli pontio disgyblion o feithrinfeydd i ddosbarthiadau derbyn yn ymwneud yn benodol â chodi safonau yn Ysgol Gynradd Fairfield. Nid yw’r cynnig yn awgrymu nad yw’r lleoliadau sy’n bwydo Fairfield yn canolbwyntio ar safonau.

I. Mae sicrhau cysondeb i ddisgyblion sy’n symud o feithrinfa i'r dosbarth derbyn yn agwedd allweddol ar y cynnig ac yn un y dywedwch nad oes ei hangen yn seiliedig ar gyflwyno adnodd olrhain y Cyfnod Sylfaen Llywodraeth Cymru. Er bod yr adnodd olrhain yn ddull a ddyluniwyd i hwyluso pontio drwy osod asesiadau sylfaenol i ddisgyblion sy’n dechrau mewn ysgol, gall y defnydd o’r adnodd amrywio’n dibynnu ar natur yr ysgol, a’r gallu i ddylanwadu neu ddylunio ymyriadau hirdymor i fanteisio ar y cyfleoedd sydd ar gael mewn lleoliad penodol i gefnogi canlyniadau. Mae’n adnodd hanfodol o ystyried natur dewis rhieni wrth ddewis darpariaeth addysgol ond bydd bob amser wahaniaethau rhwng lleoliadau sy’n cael eu rheoli’n fwy effeithiol o ran canlyniadau hirdymor disgyblion drwy gael llai o bontio a mwy o gysondeb yn y lleoliad, pan fo ar gael ac yn briodol.

J. Mae mwyafrif yr ysgolion meithrin a gynhelir ym Mhenarth yn systematig lawn bob blwyddyn, gyda nifer o rieni’n cael gwrthod mynediad a heb allu cael lle mewn ysgol feithrin o fewn pellter rhesymol i’w cartref. Bydd sefydlu meithrinfa yn Ysgol Gynradd Fairfield yn rhoi mwy o ddewis i rieni ac mae potensial i gynnig mwy o ddewis i rieni bob blwyddyn. Oherwydd lleoliad Cogan, nid yw’r ysgol bob amser yn denu ceisiadau ar gyfer plant y gwrthodir lle iddynt yn rhywle arall ym Mhenarth. Mae ein cofnodion presennol yn dangos bod 9 lle ar gael yn Cogan. I’r gwrthwyneb, mae Victoria wedi gwrthod 13 o ddisgyblion y flwyddyn academaidd hon, Albert 19 o ddisgyblion a Bute Cottage 29 o ddisgyblion. Mae hyn yn adlewyrchu’r profiadau dros y blynyddoedd diweddar. Mae’r goblygiadau ariannol o weithredu’r cynnig hwn yn ffafriol o ystyried bod llety priodol ar y safle eisoes yn amodol ar fuddsoddiad o tua £20,000 i sicrhau ei fod yn addas at y diben. Wrth ystyried buddion ac effeithiau posibl i ddysgwyr, credir bod hwn yn ateb cost-effeithiol pan fo gan ysgol ddarpariaeth feithrin.

K. Cynhaliwyd Asesiad O’r Effaith Ar Gydraddoldeb ac mae’n rhan o’r adroddiad ymgynghori.

L. O ran y meini prawf derbyn, ni chaniateir rhoi sicrwydd wrth dderbyn dan God Derbyniadau Ysgolion 2013 (Cymru). Mae’r meini prawf a gyhoeddir yn y Canllaw i Rieni ar Dderbyn i Ysgolion yn cael eu defnyddio’n gyson heb gyfeirio at y feithrinfa a fynychwyd.

M. Mae nifer o ysgolion sy’n denu disgyblion o’r tu allan i Fro Morgannwg, yn arbennig ar ffin ddaearyddol y Cyngor. Mae’r trefniadau pontio’n fater i’r ysgolion dan sylw, ond mae ysgolion

cynradd eraill wedi amlinellu'r heriau o beidio â chael darpariaeth feithrin ar y safle. Mae manylion yn Atodiad G, Atodiad C.

N. Mae eto'n bwysig tanlinellu bod amrywiaeth sylweddol o ran y lleoliadau sy'n bwydo Ysgol Gynradd Fairfield, ac nid nod y cynnig hwn yw gwerthuso gweithdrefnau mewn lleoliadau eraill, boed o fewn neu'r tu hwnt i reolaeth yr Awdurdod Lleol, ond yn hytrach rheoli newid yn Ysgol Gynradd Fairfield i gefnogi canlyniadau'n well a lliniaru heriau lle y bo'n bosibl. Noda adroddiad diweddar gan y Cydwasanaeth Addysg:

"Mae disgyblion yn gwneud cynnydd da yn Fairfield. Mae deilliannau yn y Cyfnod Sylfaen yn gyffredinol gryf, er bod perfformiad o ran iaith, llythrennedd a chyfathrebu yn llai cryf. Nid oes amheuaeth fod tîm arweinyddion yr ysgol mewn sefyllfa gref i allu cyflwyno darpariaeth feithrin yn yr ysgol a sicrhau ei bod yn cynnig profiad dysgu o safon uchel i'r holl blant. Byddai hanes yr ysgol o wella cyrhaeddiad y rhan fwyaf o ddysgwyr y sicr yn cael ei atgyfnerthu. Byddai dull cyson o addysgu a chynllunio dysgu disgyblion o ran dilyniant a chynnydd yn bendant yn cyfrannu at godi safonau ar draws yr ysgol."

O. Fel y gŵyr penaethiaid, mae sawl agwedd gwahanol ar heriau sy'n effeithio ar ganlyniadau posib, gyda nifer o ffactorau gwahanol, o gymhlethdod gwahanol ac ag effaith wahanol. Mae nifer o ddulliau o nodi a chefnogi'r rhain, nid lleiaf arolygon ac ymweliadau monitro dilynol Estyn (os yn berthnasol). Nodwyd bod Ysgol Gynradd Fairfield yn ysgol sydd wedi gwneud cynnydd sylweddol ers 2010, ac fe'i cydnabuwyd am ei chynnydd. Byddai cyffredinoli canlyniadau gwael yn seiliedig ddim ond ar addysgu gwael yn amlwg yn asesiad annheg, a heb ystyried ffactorau amrywiol eraill, yn cyfyngu ar y gallu i ddelio â rhesymau neu ddylanwadau sylfaenol. Mae'n ddull naïf a allai hefyd atal ysgol rhag gallu cefnogi'r plant a'u teuluoedd sy'n dewis mynd yno yn y ffordd orau posibl.

Gobeithio bod hyn yn mynd i'r afael â'ch pryderon. Diolch am eich cyfraniad at yr ymgynghoriad hwn.

Yn gywir,

**Trevor Baker**

**Rheolwr Gweithredol, Strategaeth ac Adnoddau**